12 Diwrnod y Nadolig 2022 - Enillydd 3ydd

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Canolfan Fowls Dan Do Taf-elái

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i Ganolfan Fowls Dan Do Taf-elái! Mae gyda nhw chwe chynghrair mewnol ar gyfer eu chwaraewyr mwy profiadol, ynghyd â bowlio cymdeithasol yn ystod yr wythnos, a noson hwyl bob nos Sadwrn. Maen nhw'n darparu ar gyfer pob gallu, ac yn annog pobl newydd i ymuno.

Eleni, maen nhw wedi croesawu llawer o ddefnyddwyr newydd i'r ganolfan, drwy gysylltu â phartneriaid lleol. Ddechrau 2022, fe gynhalion nhw raglen ar gyfer goroeswyr strôc, mewn partneriaeth â Bowls Cymru. Manteisiodd llawer o bobl ar y rhaglen. Fe gynhalion nhw hefyd fenter beilot gyda BAROD, sefydliad sy'n cefnogi pobl sy'n adfer o fod yn ddibynnol ar alcohol. Yn fwy diweddar maen nhw wedi gweithio gyda ni er mwyn annog pobl i roi cynnig ar fowls am y tro cyntaf. Mae'r sawl sydd wedi dod wedi bod wrth eu boddau â'r sesiynau, ac mae rhai wedi ymuno â'r clwc.